## PREIFAT A CHYFRINACHOL

Annwyl

Ymchwiliad Disgyblu

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi fy mod wedi cael fy mhenodi'n swyddog ymchwilio ac fel rhan o'r broses honno hoffwn gwrdd â chi fel y cytunwyd â chi ar (nodwch ddyddiad, amser a lleoliad). Fy rôl fel Swyddog Ymchwilio yw cael yr holl wybodaeth berthnasol a chanfod ffeithiau'r achos. A fyddech cystal â dod ag unrhyw wybodaeth neu ddogfennu gyda chi a allai fod o gymorth i'r ymchwiliad. Bydd (enw) Ymgynghorydd Adnoddau Dynol a/neu (enw) Cymryd Nodiadau yn bresennol yn y cyfarfod gyda mi. Dylech fod yn ymwybodol, os caiff ei gadarnhau, y gallai eich datganiad gael ei ddefnyddio'n rhan o unrhyw wrandawiad ffurfiol a all ddigwydd.

Sylwch nad yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn recordio cyfarfodydd/gwrandawiadau disgyblu; ar yr un pryd, nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin, fel Rheolwr Data, fel arfer yn caniatáu i weithiwr (neu gynrychiolydd/cynorthwyydd y gweithiwr) recordio gwrandawiadau a/neu gyfarfodydd ymchwilio, o gofio'r data sensitif a phersonol a allai gael ei drafod. Yn achos cais am recordio'n cael ei ganiatáu gan yr Awdurdod Lleol, mae'n rhaid i'r gweithiwr gytuno i ddarparu copi o'r recordiad i'r Awdurdod Lleol o fewn 48 awr i ddiwedd y cyfarfod.

Yn ogystal, fel Rheolwr Data a threfnydd y cyfarfod/gwrandawiad, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadarnhau y bydd hawlfraint y recordiad ac unrhyw drawsgrifiad dilynol yn eiddo i'r Awdurdod Lleol ac yn parhau i fod yn eiddo i'r Awdurdod Lleol, er mwyn sicrhau bod y data sydd wedi'i gynnwys yn cael ei ddiogelu ac yn parhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data. Yn achos unrhyw gyfarfod ymchwilio sy'n cael ei recordio heb ganiatâd, mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i wrthod caniatâd i'r recordiad hwnnw gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyfarfod neu wrandawiad dilynol.

Byddaf yn fwy na pharod cynnal y gwrandawiad yn y Gymraeg neu yn y Saesneg. A fyddech cystal â rhoi gwybod imi p'un yw eich dewis iaith er mwyn imi allu gwneud y trefniadau priodol.

A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi cyn gynted â phosibl os yw'r dyddiad hwn neu'r amser yn anghyfleus, neu os oes angen gwneud unrhyw addasiadau penodol ar eich cyfer. Os oes unrhyw ffactorau eraill a allai yn eich barn chi effeithio ar drefniadau'r cyfarfod, rhowch wybod imi cyn gynted ag y bo modd.

Dylech gael gwybod bod cyfarfod ymchwilio yn gam anffurfiol o dan Polisi a Gweithdrefn Ddisgyblu'r Awdurdod (Copi wedi'i ddarparu eisoes). Fel y cyfryw, nid oes hawl statudol i gael cwmni cydymaith. Serch hynny rydym yn cydnabod, os ydych yn destun ymchwiliad,

y mae'n bosibl y byddwch am gyflwyno cais am i gydymaith addas (sy'n annibynnol ar yr ymchwiliad) fod yn bresennol yn gwmni ichi. Gall cydymaith fod yn gynrychiolydd undeb llafur cydnabyddedig neu'n gydweithiwr.

Nodwch nad yw'r ffaith bod ymchwiliad yn cael ei gynnal yn golygu y bydd camau ffurfiol yn dilyn o reidrwydd. Gwneir y penderfyniad ar ôl i'r ymchwiliad gael ei gwblhau. Bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal yn ddiduedd ac yn deg. Ar ôl i ni gwblhau'r ymchwiliad, byddwn yn rhoi gwybod i chi yn ysgrifenedig am y canlyniad.

Gan fod y mater hwn yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, a fyddech cystal â chadw'r rheswm dros y cyfarfod hwn ac unrhyw drafodaethau ynddo yn gyfrinachol a pheidio â'i drafod â'ch cydweithwyr. Gallai unrhyw achos o dorri cyfrinachedd beryglu'r ymchwiliad, a bydd yn cael ei drin fel mater difrifol iawn. Os ceir bod amodau cyfrinachedd wedi'u torri, gallai hynny arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn y person dan sylw. Mae'r Awdurdod yn trin data personol a gesglir yn ystod y weithdrefn ddisgyblu yn unol â'i bolisi diogelu data. Yn ein hysbysiad preifatrwydd weithwyr, darperir gwybodaeth am sut y defnyddir eich data a'r sail ar gyfer prosesu eich data.

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth neu gyngor, mae croeso ichi gysylltu â mi drwy ffonio'r rhif uchod.

Yn gywir